Enw




DARLLENWCH
Genesis 37: 12-36

*Mae'r stori yma'n sôn am:*
**Brodyr Joseff yn ei werthu.**

## Stori 2 Brodyr Joseff yn ei Gasáu

Un diwrnod, gofynnodd Jacob, tad Joseff, iddo fynd i weld sut roedd ei frodyr. Roedden nhw'n bell i ffwrdd yn gofalu am eu defaid.



**Ysgrifennwch enw eu tad yma**: J __ __ __ __

Pan aeth Joseff at ei frodyr, fe wnaethon nhw afael ynddo, tynnu ei gôt a'i daflu i mewn i dwll mawr yn y ddaear. Wedyn, dyma nhw yn ei werthu i bobl oedd yn mynd i'r Aifft. Talodd y bobl 20 darn arian amdano ac aethon nhw ag ef i fod yn was.

Lladdodd ei frodyr afr a rhoi côt Joseff yn ei gwaed. Aethon nhw â'r gôt adref i ddangos i'w tad a dweud celwydd wrtho. Dywedon nhw eu bod nhw wedi dod o hyd i'r gôt. Roedd Jacob yn meddwl bod anifail gwyllt wedi lladd Joseff.

Dyna greulon oedd brodyr Joseff! Roedden nhw'n meddwl na fyddai neb yn gwybod bod Joseff yn dal yn fyw! Ond, ar ôl blynyddoedd, cawson nhw eu dal!

**Lliwiwch y geiriau hyn o'r Beibl.**

"Bydd eich pechod yn eich dal."

**Numeri 32: 23**